Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Ymchwil a Gwerthuso


CymruWellWales

# Gwerthusiad o Ymagwedd Gwybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs) mewn tair ysgol uwchradd yng Nghymru

## Adroddiad Byr





Genevieve Riley a James Bailey

# Gwerthusiad o Ysgol Wybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs) mewn tair ysgol uwchradd yng Nghymru - Adroddiad Byr


### Awduron
Genevieve S. Riley a James W. Bailey

### Cysylltiadau
Cysylltiadau Adran Ymchwil a Gwerthuso, Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru



### Cydnabyddiaethau
Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr ym mhob un o'r ysgolion peilot am gymryd rhan yn y cyfweliadau hyfforddi a gwerthuso; ein cydweithwyr yn yr Adran Ymchwil a Gwerthuso a Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) Cymru Well Wales ar gyfer cefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys Dr. Alisha Davies (Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso), Sian Bolton (Cyfarwyddwr Pontio, Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth) a Jo Hopkins (Cyfarwyddwr Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod Cymru Well Wales) am eu hadborth ar yr adroddiad hwn.

### Cyllid
Cafodd y gwerthusiad hwn ei ddarparu gan y Tîm Gwerthuso ac Effaith, Adran Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Dyfyniadau a Awgrymir
Riley GS a Bailey JW (2019). Gwerthusiad o Ymagwedd Ysgol Wybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs) mewn tair ysgol uwchradd yng Nghymru. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**ISBN 978-1-78986-154-119**



**© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w ddatgan.

Mae hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, cynllun a gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

## Cynnwys


**Geirfa termau** **3**

**Cefndir** **4**

**ACEs ac Addysg** **4**

Peilot ymagwedd ysgol gyfan Gwybodus am ACE 5

**Dull gwerthuso** **6**

**Canfyddiadau** **6**

Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o ACEs a'u heffeithiau 6

Rôl diwylliant yr ysgol ar hyfforddiant Gwybodus am ACE a gweithredu dysgu newydd 6

Cynllunio gweithredu o fewn ymagwedd ysgol Gwybodus am ACE 9

Defnydd o'r offeryn parodrwydd am ACE 10

Goresgyn rhwystrau i ddod yn ysgol sy'n wybodus am ACE 10

Ymateb i ganlyniadau anfwriadol hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE 12

Arweinyddiaeth i ysgogi newid diwylliant 12

**Cyfyngiadau'r Gwerthusiad** **13**

**Casgliad** **14**

**Ystyriaethau'r dyfodol** **14**

Cynllunio gweithredu o fewn ymagwedd ysgol Wybodus am ACE 14

Parodrwydd ysgol i fabwysiadu ymyriadau 15

Ymarfer Adnewyddu 15

Gwerthuso yn y Dyfodol 15

**Cyfeiriadau** **16**


## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **ACE** | Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod |
| **PLACE** | Chwareus (amgylchedd & ymagwedd), Hoffi, Derbyn, Cywreinrwydd ac Empathi |
| **CWW** | Cymru Well Wales |
| **PATH** | Hyrwyddo Yfory Amgen â Gobaith |
| **EAT** | Camau Cynnar gyda'n Gilydd |
| **EPS** | Gwasanaeth Seicoleg Addysgol |
| **EPs** | Seicolegwyr Addysg |
| **SIP** | Cynllun Gwella Ysgol |
| **SEF** | Ffurflen hunan-werthuso |
| **SLT** | Tîm Uwch-reolwyr |

## Cefndir

Fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig (DU) ac ar draws y byd, mae iechyd a lles pobl Cymru yn cael ei effeithio'n arwyddocaol gan Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACEs). Yn gynnar yn 2016, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth Gymreig gyntaf o ACEs, a ddatgelodd fod 47% o oedolion yng Nghymru wedi dioddef o leiaf un ACE yn eu plentyndod a 14% wedi dioddef pedwar neu fwy[1]. Mae ACEs megis cam-drin, esgeulustod ac amgylcheddau cartref camweithredol, yn gallu cael effaith niweidiol ar gyfleoedd bywyd unigolyn. Mae ACEs yn gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol gwael a datblygiad ystod eang o ymddygiadau niweidiol, yn cynnwys ysmygu, defnydd uwch o alcohol, defnyddio cyffuriau, ymddygiad rhywiol rhyfygus, trais a throseddu[2,3].

Er mwyn mynd i'r afael ag ACEs ar lefel poblogaeth, sefydlodd Cymru Well Wales (CWW) yr Hyb Cymorth ACE i helpu i ysgogi cyflawni'r weledigaeth gyfunol ar gyfer Cymru fel arweinydd mewn plentyndod heb ACE.

## ACEs ac Addysg

Mae'r Hyb Cymorth ACE CWW wedi parhau gyda datblygiad ymagwedd gwybodus am ACE mewn ysgolion i gyflwyno a chyflawni arferion gwybodus am drawma mewn ysgolion. Mae gan ysgolion rôl bwysig iawn wrth liniaru effaith drawmatig ACEs[4-6]. Fodd bynnag, mae ymagweddau traddodiadol i fynd i'r afael ag ymddygiad heriol sydd yn gysylltiedig â thrawma cymhleth yn aml yn cynnwys gweithdrefnau disgyblu megis gorfod aros ar ôl ysgol, eu cadw allan o'r ysgol dros dro a gwaharddiad; nid yw'r rhain yn effeithiol yn y tymor hir i greu newid parhaol ac ystyrlon[7]. Fel mater o ffaith, mae mesurau o'r math hyn yn cynyddu'r risg bod plentyn yn dewis peidio â mynd i'r ysgol neu gael ei wthio allan[8], sydd yn rhagfynegi canlyniadau negyddol mewn unigolion[9] ac yn gymdeithasol[10].



### Peilot ymagwedd ysgol-gyfan gwybodus am drawma ACE

Yng Nghymru roedd yr ymagwedd ysgol-gyfan gwybodus am ACE wedi ei gynllunio a'i dreialu yn wreiddiol o fewn tair ysgol gynradd[11]. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE ar draws ysgolion ac annog lleoliadau ysgol i fabwysiadu ymagwedd gwybodus am ACE i wella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau holl staff addysgu a chymorth yr ysgol.

Fel rhan o'u cynllun cyflwyno, roedd Arweinydd Sector Addysg Hyb Cymorth ACE CWW wedi cydlynu gweithredu pecyn hyfforddi wedi ei addasu ar gyfer ysgolion uwchradd a chafodd hwn ei dreialu mewn tair ysgol uwchradd yn Ne Cymru dros gyfnod blwyddyn academaidd 2018/2019.

**Tabl 1: Rhannau'r ymagwedd ysgol wybodus am ACE i ysgolion uwchradd**

| Cyfnod 1 | Cyfnod 2 | Cyfnod 3 |
|---|---|---|
| YMWYBYDDIAETH ACE | YMARFER SY'N WYBODUS AM DRAWMA | HYRWYDDO YFORY AMGEN Â GOBAITH (PATH) |
| **Hyfforddwr:Arweinydd Sector Addysg Hyb Cymorth ACE CWW** | **Hyfforddwr:Seicolegydd Addysg (EP) x 2** | **Hyfforddwr:Seicolegydd Addysg (EP) x 2** |
| Beth yw ACE? | Athroniaeth meta-emosiwn | Sefydlu nodau perthnasol i ACE |
| Straen/trawma gwenwynig a datblygu'r ymennydd | Hyfforddiant emosiynol a PLACE | Cytuno ar flaenoriaethau strategol |
| Effaith ACEs ar iechyd a lles | Ffenestr Goddefgarwch | Gosod llinell amser |
| Sut i adnabod ACEs mewn plant | Lles personol wrth ddelio â thrawma (Five Wells) | |
| Cyflwyniad i ymagwedd sydd yn wybodus am drawma | Adeiladu gwydnwch ymhlith plant a phobl ifanc | |
| | Sut olwg sydd ar ysgol sydd â deallusrwydd o ACE? | |
| **Cynulleidfa Ysgol Darged** | | |
| Ysgol-gyfan | Grŵp llai a dargedwyd: arweinwyr lles, uwch reolwyr, penaethiaid blwyddyn, staff bugeiliol | Grŵp llai a dargedwyd: arweinwyr lles, tîm uwch reolwyr (SLT), penaethiaid blwyddyn, staff bugeiliol |



## Dull gwerthuso

Mae'r gwerthusiad hwn yn adrodd ar weithrediad peilot ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE mewn tair ysgol uwchradd yn y flwyddyn academaidd 2018/19. Roedd y tair ysgol wedi'u hunan-ddethol, ag ymwybyddiaeth o'r gwaith mewn ysgolion cynradd a chysylltiadau presennol â Hyb Cymorth CWW ACE. Gwerthuswyd pob un gan ddefnyddio proses dulliau cymysg methodoleg gwerthuso heb fod yn arbrofol. Roedd y gwerthuso yn cynnwys holiadur cyn ac ar ôl hyfforddiant (Cyfnod 1 n=51; Cyfnod 2 n=56 a Chyfnod 3 n=6) a chyfweliadau ansoddol (n=2), gyda grwpiau ffocws (n=2 [15 cyfranogwr]).

Bwriad y gwerthusiad oedd asesu lefelau gwybodaeth, ymwybyddiaeth ac agweddau staff addysg yn dilyn derbyn tri chyfnod o hyfforddiant gwybodus am ACE; yn ogystal â cheisio egluro sut oedd y rhaglen hyfforddiant wedi gweithio, i bwy, ac yma mha amgylchiadau[12,13]. Nid bwriad y gwerthusiad oedd mesur effaith hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE ar ganlyniadau i blant. Mae'r canfyddiadau allweddol o'r peilot hwn yn cael eu disgrifio nesaf a gwersi a ddysgwyd ar gyfer datblygiad y dyfodol yn y maes hwn.

## Canfyddiadau

### Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o ACEs a'u heffeithiau

Roedd ein gwerthusiad wedi canfod tystiolaeth o lefelau cynyddol o hyder staff yn eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o ACEs wedi iddynt fynychu Cyfnodau 1-3 o hyfforddiant gwybodus am ACE. Ar ôl cwblhau Cyfnodau 1 a 2, y maes gwybodaeth ' deall beth yw ACEs' dderbyniodd yr adroddiadau lefelau hyder uchaf ar y cyfan, gyda 'deall yr effaith gall ACEs gael ar ddatblygiad plentyn' yn dilyn yn agos.

> **"Yr ACEs y soniwyd amdanynt yn yr hyfforddiant. Roedd hynny yn sicr wedi cynyddu ymwybyddiaeth...Mae rhai amlwg yn nhermau camdriniaeth neu alcoholiaeth yn y cartref neu'r cefndir efallai, ond mae yna rai eraill nad oeddynt o reidrwydd mor amlwg." Grŵp Ffocws 1, Cyfranogwr C**

Cyn iddynt gwblhau unrhyw hyfforddiant, roedd staff wedi dangos y lleiaf o hyder yn eu gwybodaeth a'u sgiliau i 'ddefnyddio ymagwedd gwybodus am ACE mewn addysg' a'r 'effeithiau mwy hir dymor

o ACEs i laslencyndod ac oedolion llawn dwf'. Roedd y ddau faes gwybodaeth hyn wedi arwain at y meysydd cynnydd uchaf mewn lefelau hyder yn dilyn cwblhau hyfforddiant Cyfnod 2.

> **"Rwy'n credu, i mi, yr effaith ar iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd...Sut y gall effeithio ar neu gwtogi hydeu bywyd. Roedd hynny yn dipyn o agoriad llygad i mi."**
> **Grŵp Ffocws 1, Cyfweliad F**

Roedd ein hymchwiliadau ansoddol wedi amlygu cynnydd yn nealltwriaeth staff o achosion sylfaenol ymddygiad anodd yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â helpu darparu dealltwriaeth cyd-destunol o effeithiau hanesyddol a chyfunol adfyd.

> **"Rwy'n credu yn yr ystafell ddosbarth, weithiau mae'n fwy tebygol bod gennych y cwestiwn hwnnw yn eich pen - iawn, beth sy'n achosi'r ymddygiad hwn? ... Oes yna rywbeth sylfaenol am yr unigolyn hwn nad ydw i efallai yn ymwybodol ohono?" Grŵp Ffocws 2, Cyfranogwr F4**

## Rôl diwylliant ysgol ar hyfforddiant gwybodus am ACE a gweithredu dysgu newydd

Roedd gwerthusiad y dair ysgol beilot wedi amlygu diwylliannau gwahanol o fewn yr ysgolion oedd yn cyfranogi, yn ogystal â'r effaith amlwg a gafodd hyn ar weithredu'r hyfforddiant, yn benodol ar ôl hyfforddiant Cyfnod 2, ymwybyddiaeth o drawma.

Roedd dwy ysgol wedi integreiddio buddion yr hyfforddiant gwybodus am ACE o fewn y systemau cefnogaeth oedd yn bodoli eisoes yn yr ysgol. I'r graddau hyn roedd yr hyfforddiant gwybodus am ACE yn cyfannu'r systemau oedd yn bodoli eisoes yn yr ysgolion ac roedd newidiadau ychwanegol eisoes yn dechrau cael eu hadrodd, gan gynnwys lleihad mewn eithrio disgyblion a chydnabyddiaeth gadarnhaol gan yr arolygiaeth ysgolion allanol. Mae'n debygol bod newidiadau yr adroddwyd amdanynt yn y gwerthusiad hwn yn bodoli eisoes (yn rhannol) cyn i'r ysgol ymwneud â hyfforddiant gwybodus am ACE. Fodd bynnag, roedd y ffyrdd yr oedd staff yn adeiladau perthnasau da gyda disgyblion yn creu ymdeimlad o falchder yn yr hyn roedd staff addysgu yn gwneud i blant bregus. Roedd y diwylliant lles cadarnhaol hyn yn gweithio fel galluogwr i greu gweledigaeth ysgol sy'n wybodus am ACE yn yr ysgol beilot a ymgymerodd â Chyfnod 3 i greu cynllun gweithredu.

**Mae ein gwerthusiad wedi canfod tystiolaeth o gynnydd yn lefelau hyder staff yn eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o ACEs ar ôl mynychu Cyfnodau 1-3 o hyfforddiant gwybodus am ACE.**

**"I mi fy hun, dwi'n meddwl mai'r effaith ar iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd oedd o... Sut y gall effeithio ar neu fyrhau rhychwant eu hoes mewn gwirionedd. Ron i'n canfod hyn yn ychydig o ffactor waw." Grŵp Ffocws 1, Cyfweliad F**

**Diwylliant lles cadarnhaol yn gweithredu fel galluogwr ar gyfer creu gweledigaeth ysgol wybodus am ACE.**

**"Rydym wedi adeiladu capasiti trwy wella gwybodaeth staff allweddol … ac yna o hynny, rydym wedi medru rhaeadru hyn i'r holl staff. Ond yr hyn sy'n dda am y ffordd hon yw y gallwn ei deilwra i'n disgyblion a gallwn roi enghreifftiau o fywyd go iawn. Er enghraifft mae un disgybl… yn ddisgybl sy'n derbyn gofal … camdriniaeth, felly gallwn gysylltu â…roeddem wedi gallu edrych ar sut i fynd i'r afael â hyn o ddydd i ddydd." Cyfweliad Rhanddeiliad 1**

Roedd y diwylliant hwn wedi ei danategu gan syniad cryf o arweiniad o fewn yr ysgol i ddatblygu eu cynlluniau lles a 'bwrw ati' â'r angen i fod yn wybodus am ACE. Roedd mwy o gefnogaeth cymheiriaid i staff pan yn ymdrin ag achosion anodd o fewn diwylliant yr ysgol, sydd yn cysoni â'r canlyniadau a fwriadwyd gan yr hyfforddiant ar gyfer 'lles personol pan yn ymdrin â thrawma', i osod pwyslais cryf ar staff yn gofalu amdanynt eu hunain. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn amlygu'r cysylltiadau rhwng diwylliant cadarnhaol ysgol a pharodrwydd staff i fabwysiadu ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE.

**"…rydym yn eistedd ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd ac yna'n mynd trwy restr o ddisgyblion sydd yn …fregus, materion ynghylch presenoldeb… maen nhw [staff] yn dod â thaenlen. Maen nhw'n dweud, "O, mae hwn yn … beth ydych chi'n deimlo?" Ac yna ein mewnbwn ni, ac a ydym yn cytuno â nhw. A dyna'r rhai maent yn sylwi arnynt.." Grŵp Ffocws 1, Cyfranogwr G**

Yn un o'r ysgolion peilot, nid oedd y cynnydd yn y lefelau hyder yr adroddwyd arnynt yn dilyn Cyfnod 1 (hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE) wedi ei drosi i newid pellach o fewn amgylchedd yr ysgol. Tra bod tystiolaeth o newid yn lefelau hyder staff i ddeall ac ymdrin ag effeithiau ACEs ar blant, roedd dilyniant ansoddol gyda chyfranogwyr yn dilyn hyfforddiant Cyfnod 2 yn dangos nad oedd hyn yn cael ei gynnal yn dilyn cwblhad, a diffyg ymrwymiad uwch arweinyddiaeth i fanteisio ar y momentwm yn cyfyngu ar ymwneud effeithiol ar lefel ysgol. Roedd yr ysgol hon wedi ei harchwilio'n ddiweddar gan yr arolygiaeth ysgolion, a nifer o feysydd pwysig wedi eu nodi ar gyfer gwelliant. Mae'n debygol bod yr amgylchiadau hyn wedi effeithio ar eu parodrwydd i fod yn wybodus am ACE ac arloesi systemau newydd, sydd yn galw am sefydlu newid mewn addysgu ac ymarfer i gyflawni newidiadau mewn systemau.



Mae cyd-destun ehangach ysgol yn faes pwysig ar gyfer ystyriaeth yn y dyfodol pan yn cynllunio hyfforddiant staff ac ymrwymiad i weithredu cynlluniau i ddod yn ysgol sy'n wybodus am ACE. Gellir gweld parodrwydd i newid fel rhagflaenwr gwybyddol i ymddygiadau sydd naill ai'n cefnogi neu'n gwrthsefyll ymdrech i newid[14] Dylid gweld ymwybyddiaeth o'r rhwystrau rhag datblygu ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE o fewn cyd-destun amgylchedd yr ysgol a bydd yn dylanwadu ar ba mor debygol mae'r ymagwedd gwybodus am ACE yn cael ei fabwysiadu o fewn systemau.

## Cynllun gweithredu o fewn ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE

Adroddwyd gan gyfranogwyr bod Cyfnod 3 yr ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE yn rhan hanfodol o'r ymagwedd ysgol-gyfan yn dilyn hyfforddiant Cyfnod 1 a 2, a'i fod yn darparu'r elfen 'beth nesaf?' i weithredu'r newidiadau a'r ymagweddau a gynlluniwyd. Roedd yr hyfforddiant ond wedi digwydd o fewn un ysgol a'i ddefnyddio fel model cynllun gweithredu a elwir yn ymagwedd PATH - Hyrwyddo Yfory Amgen â Gobaith[15]. Roedd yn darparu'r amgylchedd a'r cyfle i staff greu gweledigaeth o ysgol sy'n wybodus am ACE, gydag ymgysylltiad rhanddeiliaid allweddol ac ymagweddau cyd-gynhyrchiol, a doedd dim awgrymiadau ynghylch diwygio cynnwys nac ymarfer yr hyfforddiant, ac roedd cyfranogwyr wedi adrodd yn unfarn ei fod yn ddefnyddiol iawn wrth weithio tuag ag datblygu ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE.

Fodd bynnag, mae'r defnydd o PATH ond yn cynrychioli un broses gall ysgolion ei defnyddio i ddatblygu adolygiad o ymagweddau gwybodus am ACE ac yna adeiladu cynllun gweithredu. Mae gweithredu PATH mewn ysgolion uwchradd wedi ei gyfyngu gan argaeledd hwyluswyr hyfforddedig. Byddai math arall o weithdy cynllunio gweithredu ag arweinyddiaeth ysgol ac uwch staff yn dal i alluogi ysgolion i symud ymlaen trwy Gamau 1-3 a gweithio tuag at newid systemau ar lefel ysgol, mewn ffordd gynaliadwy a chydgynhyrchiol a dylid ei ystyried ar gyfer datblygu. Dylai unrhyw waith pellach a ddatblygir ar gyfer Cyfnod 3 ystyried hefyd sut y gellir mesur canlyniadau sy'n deillio o gynllun gweithredu ysgol.

## Defnyddio'r offeryn ACE-parod

Mewn 2 o'r 3 ysgol yn unig y cwblhawyd yr offeryn ACE-Parod ac roedd cyfranogwyr yn y gwerthusiad wedi canfod ei fod yn rhy hir ac yn ail-adrodd cynnwys oedd ar gael mewn rhannau eraill o gynlluniau'r ysgol (Y Cynllun Gwella Ysgol [SIP] a'r Ffurflen Hunan-Werthuso ysgol [SEF]). Ar gyfer ysgolion â systemau cynhwysfawr ar gyfer mesur ymagweddau lles ac ymyriadau ar gyfer plant, roedd yn ymddangos nad oedd yr offeryn yn ychwanegu gwerth fel rhan o'r ymagwedd gwybodus am ACE. Dylid ystyried adolygu ac adnewyddu'r offeryn gyda mwy o bwyslais ar sut mae ei ymagwedd hunan-asesu yn cysylltu â chynllun integredig sydd yn deillio o gwblhau Cyfnod 3 ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE.

## Goresgyn rhwystrau rhag dod yn ysgol sy'n wybodus am ACE

Thema gyffredin a nodwyd fel rhwystr i ddefnyddio ymagweddau gwybodus am ACE oedd y cyfyngiadau ar amser staff i weithio gyda phlant gan ddefnyddio ymagwedd gwybodus am drawma. Mynegwyd hwn fel tensiwn rhwng yr angen i gyflawni nodau dysgu ar gyfer gwers a chymryd yr amser i gefnogi unigolion neu grŵp o blant yn unol ag egwyddorion gwybodus am drawma Cyfnod 2. Nid oedd staff yn meddwl bod prinder amser yn cyfyngu ar eu gallu i weithredu mewn dull gwybodus am ACE, ond roedd pryderon ynghylch pwysau ychwanegol ar eu hamser i gyflwyno nodau addysgu yn thema gyson. Cafodd y rhwystr hwn ei gydbwyso gan gynnydd a adroddwyd mewn capasiti a gallu mewn ysgolion trwy wella gwybodaeth staff allweddol a rhannu dysgu.

> **"Amser yw'r un pennaf oherwydd o safbwynt dysgu ... tra fy mod i'n dysgu, os yw rhywbeth wedi digwydd yn fy ystafell a rhywun yn strancio, os ydych yn fy neall, does gen i ddim o'r amser i borthi. Y cyfan rwyf ei angen yw i'm dysgwyr ddysgu fy nodau ar gyfer y wers honno... cawsom y cyngor i ddweud, "Byddaf yn siarad â hwn a hon. Fe ddof yn ôl atoch chi yn nes ymlaen." ... Mae'n amlwg bod angen dilyn hynny a chael yr amser i sicrhau eich bod yn gwneud hynny." Grŵp Ffocws 1, Cyfranogwr A**

Roedd yr ymagwedd at adeiladu gwybodaeth am ACEs a'u heffeithiau ar draws lleoliadau ysgolion uwchradd mawrion trwy'r model 'hyfforddi'r hyfforddwr' lle byddai staff oedd yn mynychu Cyfnodau 2-3 yn rhannu eu gwybodaeth â staff eraill o fewn eu hysgol a'u hadrannau. Roedd rhai cyfranogwyr yn yr ysgolion peilot wedi adrodd am amheuaeth ymhlith eu cymheiriaid yn dilyn hyfforddiant, a hyn wedi helaethu pan nad oeddynt yn teimlo'n hyderus wrth ymateb a'u gwybodaeth sylfaenol i ymdrin â chwestiynau ynghylch ACEs.

Nid oedd cyfranogwyr yn teimlo'n hollol hyderus wrth hyrwyddo gwydnwch, yn ogystal â chymhwyso dulliau megis 'The Five Wells'[16]. Mae hyn yn awgrymu, er bod cyfranogwyr wedi nodi cynnydd yn hyder eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth eu hunain, nid yw hyn yn trosi'n ddi-dor i hyder cynyddol i ddarparu hyfforddiant sy'n wybodus am ACE, yn arbennig pan fydd yn cynnwys deunydd gwybodaeth seicolegol nad yw hyfforddwyr yn gyfarwydd ag ef.

---

[i]Cafodd yr Offeryn ACE Parod ei ddatblygu fel rhan o ymagwedd ysgol-gyfan mewn ysgolion cynradd a'r bwriad oedd darparu llinell fesur fas ar gyfer y darpariaethau cyfredol i ACE sydd mewn lle gan ysgolion cyn yr hyfforddiant. Nid oedd yr offeryn wedi ei addasu mewn unrhyw ffordd ac ysgolion peilot 1 a 2 yn unig oedd wedi cwblhau'r Offeryn ACE Parod wrth baratoi ar gyfer eu hyfforddiant.



Dylai ymagwedd ‘hyfforddi’r hyfforddwr’ i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff o ACEs mewn ysgolion roi ystyriaeth i ddewis y staff mwyaf addas i hwyluso’r cynnwys hwn yn y dyfodol a sicrhau bod ganddynt fynediad i adnoddau cymorth wedi iddynt gwblhau’r hyfforddiant cychwynnol.

> **“Nifer fach ond arwyddocaol o staff sydd yn llawn amheuaeth…Rwy’n meddwl bod yn rhaid i chi fod yn hollol, hollol sicr eich bod yn ateb yn hyderus …ac mae angen i ni deimlo’n hyderus wrth roi ateb da iddyn nhw” Grŵp Ffocws 2, Cyfranogwr D**

**Mae gweithluoedd yn gofyn am y sgiliau a'r hyder i godi materion sy'n ymwneud â ACE, cymorth gan gymheiriaid i staff wrth wneud hynny, yn ogystal â gwybod sut neu ble i gyfeirio'r rhai sy'n profi ACEs ar gyfer cymorth addas pan fo angen.**

**Mae ein gwerthusiad o'r peilot hwn ar draws tair ysgol yng Nghymru wedi dangos y potensial ar gyfer ymagweddau ysgol-gyfan wybodus am ACE i adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth o ACEs o fewn staff ysgol.**

## Ymateb i ganlyniadau anfwriadol o hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE

Mae datblygu'r gweithlu wedi ei nodi fel bod yn hanfodol i ddatblygu system sy'n wybodus am drallod[11,17-19]. I alluogi system o'r math hwn, mae angen hyfforddiant a chynyddu gallu, ac, yn bwysig, meithrin a chefnogi lles y gweithlu i alluogi pobl i gyflwyno gwasanaethau mewn dull gwybodus ac osgoi blinder tosturi.[17,19]. Er bod cynigion o hyfforddiant ymwybyddiaeth o ACE a hyfforddiant sgrinio am ACE yn dod yn fwy cyffredin ledled y DU, nid ydynt bob amser yn cael eu darparu gyda system gymorth ddigonol ar gyfer y staff sy'n derbyn hyfforddiant ar yr hyn sy'n feysydd pwnc sensitif[20,21]. Mae adroddiadau o euogrwydd staff wrth ddysgu am ACEs a'u heffaith rhwng cenedlaethau, ac awgrymiadau bod angen dewis hyfforddwyr yn ofalus, a hyfforddiant a goruchwyliaeth wrth gyflwyno ACEs cynnwys[20].

Yn y gwerthusiad, adroddodd cyfranogwyr bryderon am effeithiau anffafriol ar ôl dysgu mwy am ACEs, o fewn hanes personol teulu, a hefyd canfyddiadau ynghylch eu dulliau hwy o riantu ac effaith ACEs rhwng cenedlaethau. Tra bod y canfyddiad hwn wedi ei adrodd gan nifer fechan o'n cyfranogwyr, mae'n ffordd amserol i'n hatgoffa o natur sensitif y cynnwys sydd yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant gwybodus am ACE, a'r effaith y gall ei gael ar staff ysgol.

## Arweinyddiaeth i yrru newid mewn diwylliant

Un bwriad gan Hyb Cymorth ACE CWW oedd i drawsnewid strategaethau sefydliadol, gwasanaethau a phobl i fod yn wybodus am ACE, gyda systemau integredig i fynd i'r afael â chanlyniadau cysylltiedig ag ACE yn eu sectorau. Mae'r Hyb yn eiriol dros adnoddau ac arweinyddiaeth o fewn sefydliadau sydd angen cefnogi diwylliant sy'n wybodus am ACE a grymuso staff i gael sgyrsiau sy'n wybodus am ACE. Mae gweithluoedd angen y sgiliau a'r hyder i godi materion cysylltiedig ag ACEs, cefnogaeth cymheiriaid i staff wrth wneud hynny, yn ogystal â gwybod sut neu i ble i gyfeirio'r sawl sydd yn profi ACEs i gael cefnogaeth briodol pan fo angen. Mae'r pwyslais fan hyn ar gryfhau'r achos am ymagweddau cyd-gynhyrchiol fydd yn galluogi sefydliadau i arwain a sefydlu model cynaliadwy i wasanaethau gwybodus am ACE.

Heb amheuaeth, bydd arweinyddiaeth a pharodrwydd ar gyfer newid hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflawni hyn ar draws sectorau proffesiynol22, a dadleuwyd mai hwn yw'r prif ysgogwr dros ddiwygio mewn ysgolion[23,24]. Canfuwyd bod ymrwymiad uwch arweinwyr, cefnogaeth a dosbarthiad adnoddau yn hanfodol ar gyfer ymgysylltiad effeithiol mewn rhaglen ymlyniad-ymwybodol mewn ysgolion ac iddo gael effaith ar yr ysgol[24]. Mae absenoldeb arweiniad cryf i yrru newid yn dilyn hyfforddiant gwybodus am ACE yn un o'r ysgolion peilot yn amlygu ei bwysigrwydd ar y daith i fod yn wybodus am ACE a chryfhau canlyniadau i blant.

## Cyfyngiadau'r Gwerthusiad

Roedd gweithredu'r gwerthusiad yn wynebu nifer o heriau allweddol, sydd wedi effeithio ar ansawdd y data a gasglwyd, ac sy'n cynyddu tuedd bosibl. Felly dylid trin y ddirnadaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gyda gofal ynghylch y perthnasedd o fewn lleoliadau ysgol uwchradd a threiglo ehangach ar gyfer ysgolion yn y sector hwn. Roedd y dair ysgol a gynhwyswyd yn y rhaglen wedi hunan-ddewis ac yn ymddiddori mewn mynd i'r afael ag ACEs; nid ydynt yn cynrychioli'r holl ysgolion yng Nghymru, felly ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau a adroddir fan hyn.



## Casgliad

Gan ystyried pa mor gyffredin mae ACEs yng Nghymru ac effaith canlyniadau iechyd negyddol sydd wedi'i hen sefydlu[1-4], mae'n hanfodol i'r rheiny sy'n gweithio gydag unigolion a effeithir gan ACEs i fod yn wybodus a hyderus yn y gofal a'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Mae ysgolion mewn sefyllfa dda i gefnogi plant sydd yn profi ACEs, ac mae'r ymagwedd ysgol-gyfan gwybodus am ACE wedi dangos ei fod yn cyflenwi ysgolion cynradd gyda'r wybodaeth berthnasol a'r sgiliau i nodi ac ymateb i blant sydd yn profi ACEs a thrawma[11].

Mae ein gwerthusiad o'r peilot hwn ar draws tair ysgol yng Nghymru wedi dangos y potensial i ymagweddau ysgol gyfan sy'n wybodus am ACE i adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth o ACEs ymhlith staff ysgolion, ond mae'n amlygu pwysigrwydd y diwylliant sefydliadol a'r arweinyddiaeth i greu newid. Mae meithrin dealltwriaeth o effaith ACEs ar iechyd, llesiant a chanlyniadau addysgol plant hefyd yn bwysig wrth gefnogi newidiadau i arfer. Fodd bynnag, nid yw'n mynd i'r afael â'r cwestiwn o newid lefel systemau o fewn y sector addysg. Dylid ystyried sicrhau mwy o atebolrwydd wrth fod yn wybodus am ACE yn y sector hwn, gan gynnwys adrodd yn ôl ar effaith bod yn ysgol sy'n wybodus am ACE a pha ganlyniadau a ddaw yn sgil hyn i blant.

## Ystyriaethau'r dyfodol

Tra bod hwn yn werthusiad bach â rhai cyfyngiadau, mae'r ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE mewn ysgolion uwchradd wedi dangos natur drosglwyddadwy cynnwys hyfforddiant o leoliad ysgol gynradd i ysgol uwchradd wrth gynyddu ymwybyddiaeth staff o ACEs a'u canlyniadau. Gan dynnu ar y dirnadaethau ansoddol dylai datblygiad ymagwedd gwybodus am ACE yn y dyfodol ystyried y canlynol:

### Cynllun gweithredu o fewn ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE

Adroddwyd bod Cyfnod 3 yr ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE yn rhan angenrheidiol o'r ymagwedd ysgol-gyfan, a'i fod yn darparu'r elfen 'beth nesaf?' i weithredu'r newidiadau a'r ymagweddau a gynlluniwyd. Amlygwyd pwysigrwydd diwylliant cefnogol ysgol, felly hefyd darparu offer i gynorthwyo staff i greu newid a bod yn hyderus wrth weithio'n wahanol.

Fodd bynnag,dyw'r defnydd o gynllun gweithredu o fewn y gwerthusiad hwn ddim ond yn cynrychioli un broses y gall ysgolion ei defnyddio i ddatblygu adolygiad o ymagweddau gwybodus am ACE ac yna adeiladu cynllun gweithredu. Oherwydd cyfyngiadau hwyluswyr a hyfforddwyr i ddefnyddio PATH, dylid datblygu ffordd amgen o weithdy cynllun gweithredu i gwblhau ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE mewn ffordd gynaliadwy a chyd-gynhyrchiol. Dylai unrhyw waith pellach a ddatblygir ar gyfer Cyfnod 3 ystyried hefyd sut y gellir mesur canlyniadau sy'n deillio o gynllun gweithredu ysgol.

## Parodrwydd ysgol i fabwysiadu ymyriadau

Dylid talu sylw i barodrwydd ysgol i fabwysiadau ymyriadau newydd cyn buddsoddi amser ac adnoddau mewn hyfforddiant staff. Bydd hyn yn targedu ac yn gwneud y mwyaf o ddefnydd o adnoddau mewn ffordd briodol i sicrhau bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ACEs yn cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau trawsnewidiol ar gyfer newid, ar sail parodrwydd ysgol i weithredu unrhyw ddysgu.

Canfuwyd bod yr Offeryn ACE Parod yn rhy hir a'i fod yn ail-adrodd cynnwys oedd ar gael mewn rhannau eraill o gynlluniau'r ysgol (megis yr SIP a'r SEF). Dylid ystyried adolygu ac adnewyddu gyda mwy o bwyslais ar sut mae'r offeryn hunan-asesu hwn yn cysylltu â chynllun gweithredu integredig sy'n codi o gwblhau Cyfnod 3 ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE a sut y gall helpu i nodi parodrwydd ysgol i ddod yn wybodus am ACE.

## Adnewyddu Arfer

Dylai fod gan staff sydd angen cymorth pellach i raeadru eu gwybodaeth am ymwybyddiaeth o ACE fynediad i wasanaethau cefnogi parhaus tra eu bod yn cynyddu eu gwybodaeth a'u cynnwys. Gall hyn fod ar ffurf adnoddau ar y we neu gefnogaeth cymheiriaid trwy rwydweithiau ysgol neu Wasanaethau Cyflawni Addysg. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth ychwanegol i dimau uwch reolwyr i fynd i'r afael â chanlyniadau anfwriadol o effeithiau hyfforddiant ar staff.

## Gwerthusiad y Dyfodol

Mae angen gwerthusiad mwy cadarn ar effaith yr ymagwedd ysgol sy'n wybodus am ACE ar blant, sydd wedi'i gynllunio o ddechrau gweithredu'r rhaglen.

# Cyfeiriadau


1. Ashton K, Bellis MA, Davies AR, Hardcastle K, Hughes K. Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod yng Nghymru (ACE). Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2016. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 25ain Ebrill 2019]
2. Ashton K, Bellis MA, Hardcastle K, Hughes K, Mably S ac Evans M. Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod a'u cysylltiad â Lles Meddyliol ym mhoblogaeth oedolion Cymru Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) yng Nghymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2016. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 25ain Ebrill 2019]
3. Felitti VJ, Anda RF, Nordenberg D, Williamson DF, Spitz AM, Edwards V, Koss MP a Marks JS. Y berthynas rhwng camdriniaeth mewn plentyndod a chamweithrediad ar yr aelwyd â llawer o'r prif achosion marwolaeth mewn oedolion: Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) [Rhyngrwyd]. Cyf. 14, Cylchgrawn Americanaidd ar Feddygaeth Ataliol. 1998; 14: 245–258. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 25ain Ebrill 2019]
4. Brunzell T, Waters L, Stokes H. Dysgu gyda chryfderau mewn disgyblion a effeithiwyd gan drawma: Ymagwedd newydd at iachau a thwf yn yr ystafell ddosbarth. Cylchgrawn Americanaidd ar Orthoseiciatreg. 2015; 85(1): 3–9
5. Crosby SD. Persbectif Ecolegol ar Ymarferion Dysgu Gwybodus am Drawma Sy'n Dod i'r Amlwg Plant ac Ysgolion. 2015; 37(4): 223–30
6. Blodgett C, Lanigan J. Y cysylltiad rhwng profiad niweidiol mewn plentyndod (ACE) a llwyddiant mewn plant ysgolion cynradd. Cylchgrawn Chwarterol Seicoleg Ysgol. 2018; 33(1): 137
7. Howard J. Fframwaith systematig ar gyfer addysg gwybodus am drawma: cymhleth ond angenrheidiol! Cylchgrawn Ymddygiad Ymosodol, Camarfer a Thrawma. 2018; (5): 1–21.
8. Howard J. Trallodus neu herfeiddiol ar bwrpas? Rheoli ymddygiad herfeiddiol disgybl o ganlyniad i drawma ac ymlyniad dryslyd. Brisbane: Gwasg Academaidd Awstralia. 2013.
9. Lansford J, Dodge K, Pettit G, Bates J. Persbectif iechyd cyhoeddus ar roi'r gorau i fynd i'r ysgol a chanlyniadau mewn oedolion: Astudiaeth arfaethedig o risg a ffactorau amddiffynnol o 5 i 27 oed. Cylchgrawn Iechyd y Glasoed. 2016; 58(6): 652–8.
10. . Hanushek E, Woessmann L. Rôl Gwelliant Ysgolion mewn Datblygiad Economaidd. 2007.
11. Barton ER, NewburyA, Roberts J. Gwerthusiad o Ymagwedd Ysgol-Gyfan Gwybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2018. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 12fed Hydref 2019]
12. Pawson R, Tilley N. Gwerthusiad Realistig. Llundain: Sage; 1997
13. Blamey A a Mackenzie M. Damcaniaethau Newid a Gwerthusiad Realistig: Pys mewn Coden neu Afalau ac Orennau? Gwerthusiad. 2007; 13(4): 439–55.

**14.** Armenakis, A. A., Harris, S. G., & Mossholder KW. Creu parodrwydd ar gyfer newid sefydliadol. Perthnasau Dynol. 1993; (4): 681–703.

**15.** Pipi K. Yr offeryn cynllunio PATH a'i botensial ar gyfer ymchwil Whānau. Cyf. 3, Cylchgrawn Adolygiad MAI. 2010; (3): 1–10.

**16.** Moseley J. Hyfforddiant Lles Staff [Rhyngrwyd]. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 12fed Hydref 2019]

**17.** Addysg GIG yr Alban. Trawsnewid Trawma Seicolegol: Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ar gyfer Gweithlu'r Alban. 2017. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 12fed Hydref 2019]

**18.** Ford K, Newbury A, Meredith Z, Evans J a Roberts J. Gwerthusiad o Ymagwedd Gwybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) i beilot Hyfforddiant Plismona Bregusrwydd (AIAPVT)Gwerthusiad o Ymagwedd Gwybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) i beilot Hyfforddiant Plismona Bregusrwydd (AIAPVT) . Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017.

**19.** Addysg GIG yr Alban. Cynllun Hyfforddi Trawma Seicolegol. 2019. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 12fed Hydref 2019]

**20.** Edwards R, Gillies, V, Lee E, Mcvarish J WS a WD. Cyflwyniad i Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin i ymyriad blynyddoedd cynnar ar sail tystiolaeth [Rhyngrwyd]. 2017. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 25fed Hydref 2019]

**21.** Turner A. Bwriadau da ond yr ymagwedd gywir? Achos ACEs. 2019. Ar gael o: **Cliciwch yma** Dyddiad Cyrchwyd [12fed Hydref 2019]

**22.** Black SA. Nodweddion Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Addysg Uwch. Cylchgrawn Agored Arweinyddiaeth. 2015; (4): 54–66. Ar gael o: **Cliciwch yma** [Cyrchwyd 12fed Hydref 2019]

**23.** OECD. Gwella Ysgolion yng Nghymru - Persbectif OECD [Rhyngrwyd]. 2014. tud. 143. Ar gael o: **Cliciwch yma** Dyddiad Cyrchwyd [12fed Hydref 2019]

**24.** Fancourt N a Sebba J. Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ymlyniad Ysgolion Rhithiol Swydd Caerlŷr: Adroddiad Gwerthusiad. 2018. Ar gael o: **Cliciwch yma** Dyddiad Cyrchwyd [25ain Hydref 2019]

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


**Adran Ymchwil a Gwerthuso**

Adran Ymchwil a Gwerthuso
Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2, Capital Quarter [Ardal y Brifddinas]
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

/Iechyd Cyhoeddus Cymru
@PHRECymru

**Hyb Cymorth ACE**

ACE@wales.nhs.uk
@acehubwales
/acehubwales/
@acehubwales